Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nifer: 25/2012

www.cymru.gov.uk

# Rhaglen o Ymchwil Weithredu i Hysbysu'r Gwerthusiad o Gyfnod Datblygu'r Peilot Anghenion Dysgu Ychwanegol: adroddiad cryno terfynol

# Rhaglen o Ymchwil Weithredu i Hysbysu'r Gwerthusiad o Gyfnod Datblygu'r Peilot Anghenion Dysgu Ychwanegol: adroddiad cryno terfynol

**Dr Duncan Holtom, Dr Sarah Lloyd-Jones a Jack Watkins,**
**Yr Uned Pobl a Gwaith**

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn cynrychioli barn Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Dr Karen Bathgate
Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 02920 821628
Ebost: Karen.bathgate@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2012
978 0 7504 7675 1
© Hawlfraint y Goron 2012

## Prosiectau peilot Anghenion Dysgu Ychwanegol

1. Mae Llywodraeth Cymru yn diwygio'r fframwaith statudol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae'r broses ddiwygio hon yn dilyn adolygiad polisi o AAA a gynhaliwyd gan Bwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (ELLS) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC). Aethpwyd ati i gynnal yr adolygiad polisi hwn mewn ymateb i argymhellion a wnaed mewn adroddiadau gan Estyn (2003), y Comisiwn Archwilio (2002) a Cambridge Education Associates (n.d.). Cynhaliwyd yr adolygiad fesul tri cham, gydag adroddiadau yn canolbwyntio ar nodi anghenion ac ymyrryd yn gynnar (Rhan 1) (CCC, 2004a), y Fframwaith Asesu Statudol (Datganiadau) i Blant ag AAA (Rhan 2) (CCC, 2006) a Trosglwyddo (Rhan 3) (CCC, 2007). Ystyriodd yr adolygiad ddarpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig ac anghenion dysgu ychwanegol (y cyfeirir atynt fel anghenion addysgol arbennig).

2. Nododd yr adolygiad polisi wendidau mewn perthynas â phob cam o'r broses o ddiwallu anghenion addysgol arbennig (nodi, asesu, cynllunio ac adolygu) ac o ran sicrhau ansawdd a gwerthuso'r broses. Rhydd Ffigur un grynodeb o'r prif wendidau. Cyfrannodd y gwendidau hyn at ganlyniadau gwael i lawer o blant a phobl ifanc, at anfodlondeb rhieni a gofalwyr ac, mewn rhai achosion, teimladau o ddicter tuag at y ddarpariaeth, yn ogystal â diffyg gwerth am arian i'r wladwriaeth. Er enghraifft, gall methu ag ymyrryd yn gynnar ac yn effeithiol olygu bod problemau yn gwaethygu ac o ganlyniad, mae'n ddrutach i fynd i'r afael â hwy.


3. Yn 2009, mewn ymateb i'r gwendidau hyn, sefydlwyd pedwar prosiect peilot fel rhan o raglen o ymchwil weithredu a oedd â'r nod o lywio a galluogi proses o ddiwygio'r fframwaith statudol i blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig. Sefydlwyd y prosiectau peilot hyn er mwyn mynd i'r afael ag elfennau penodol o'r broses ddiwygio, fel a ganlyn:

- peilot A, i ddatblygu a pheilota model ar gyfer sicrhau ansawdd y ddarpariaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol Caerffili a Sir y Fflint);

- peilot B, i ddatblygu a pheilota model rhyngddisgyblaethol ar gyfer nodi, asesu, cynllunio ac adolygu darpariaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion dwys neu gymhleth (a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin a Thorfaen);
- peilot C, i ddatblygu a pheilota model ar gyfer nodi, asesu, cynllunio ac adolygu darpariaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol nad ydynt yn ddwys neu'n gymhleth (a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Benfro a Thorfaen);
- peilot D, i ddatblygu rôl y Cydgysylltydd Anghenion Addysgol Arbennig / Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (SENCo/ALNCo) (a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol Caerdydd a Chasnewydd).

4. Y bwriad gwreiddiol oedd i gyfnod datblygu cychwynnol y peilot gael ei gynnal rhwng mis Medi 2008 a mis Gorffennaf 2011. Fodd bynnag, o ganlyniad i faterion cyfreithiol, bu'n rhaid gohirio'r dyddiad cychwyn tan fis Medi 2009 ac ni chafodd y cytundebau â'r prosiectau peilot eu llofnodi tan fis Hydref 2009 – mis Ionawr 2010. O ganlyniad, cafodd y cyfnod datblygu ei dorri o bron i dair blynedd i lai na dwy flynedd. Ym mis Awst 2011, symudodd y Prosiectau Peilot Anghenion Dysgu Ychwanegol i'r cyfnod peilota (y cyfnod profi cadarn). Mae disgwyl i'r cyfnod peilota ddod i ben ym mis Gorffennaf 2012. Mae cyfnod pellach o beilota yn cael ei ystyried er mwyn gwerthuso sut mae gwahanol elfennau'r diwygiadau arfaethedig yn cydblethu fel system.

**Ffigur 1: trosolwg o’r gwendidau yn ystod pob cam o’r broses**



**Ymchwil weithredu a gwerthuso prosiectau'r Peilot Anghenion Dysgu Ychwanegol**

5. Comisiynwyd yr Uned Pobl a Gwaith i gynnal rhaglen o ymchwil weithredu er mwyn asesu effaith ac effeithiolrwydd y prosiectau peilot ADY. Mae hyn wedi cynnwys:

- gweithio gyda phrosiectau peilot a thîm diwygio statudol Llywodraeth Cymru, a hynny mewn rôl 'cyfaill beirniadol';
- cynnal adolygiad cwmpasu systematig yn edrych ar y llenyddiaeth ar yr angen i ddiwygio, dadansoddiad manwl o gostau'r broses ddiwygio a gwerthusiad o'r cynnydd a wnaed gan y prosiectau peilot;
- cymryd rhan mewn, a chyfrannu at gyfres o gyfarfodydd prosiect a chyfarfodydd Grŵp Diwygio Statudol Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**Rheoli a gweithredu prosiectau'r Peilot Anghenion Dysgu Ychwanegol gan Lywodraeth Cymru**

6. Roedd y broses ymgynghori, a arweiniodd at sefydlu'r prosiectau peilot, wedi tynnu sylw ar gonsensws sylweddol ynghylch gwendidau'r system gyfredol, ond llai o eglurder o ran cyfeiriad y newid yr oedd ei angen.

7. Nodwyd yr angen am weledigaeth gynhwysfawr yn gynnar yn ystod cyfnod datblygu'r prosiectau peilot. Roedd angen i'r weledigaeth amlinellu:

- canlyniadau bwriadol y broses ddiwygio;
- sut y byddai'r canlyniadau hyn yn cael eu cyflawni, megis cyflwyno prosesau cynllunio a sicrhau ansawdd newydd;
- sut y bwriedid i wahanol elfennau'r broses ddiwygio (megis y prosesau cynllunio a sicrhau ansawdd) gydblethu er mwyn gwireddu'r canlyniadau hyn.

8. Fodd bynnag, o ystyried ehangder a chymhlethdod y diwygiadau arfaethedig, a oedd yn cynnwys nifer o wahanol elfennau, roedd yn her i ddatblygu a chyfleu gweledigaeth gynhwysfawr. O ganlyniad, roedd hi'n anodd gweld sut oedd y

gwahanol elfennau a oedd yn cael eu peilota yn cydblethu â'i gilydd ac â rhannau eraill y system. Cyfrannodd hyn, yn ei dro, i wendid wrth integreiddio'r gwahanol elfennau, megis y system sicrhau ansawdd, y cynllun datblygu unigol (IDP) a rôl yr ALNCo, ar draws y prosiectau peilot. Roedd hefyd yn ei gwneud yn heriol i gyfleu'r weledigaeth ddiwygio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid nad oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiectau peilot.

9. Roedd angen arweinyddiaeth gadarn o'r canol ac roedd angen cydgysylltu'r prosiectau peilot am y rhesymau canlynol:

- amrywiaeth y prosiectau peilot;
- diffyg, ar ddechrau'r cyfnod datblygu, weledigaeth fanwl yn amlinellu sut y byddai'r modelau peilot yn ymwneud â'i gilydd a diwygiadau arfaethedig eraill y fframwaith statudol;
- yr amser cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer y cyfnod datblygu.

10. Roedd gallu Llywodraeth Cymru i ddarparu arweinyddiaeth gadarn o'r canol ac i gydgysylltu'r prosiectau peilot, wedi'i gyfyngu gan faint bach (ac felly diffyg capasiti) y tîm diwygio statudol a chan yr ymagwedd agored, gydweithredol tuag at reoli'r prosiect; ymagwedd a oedd yn effeithiol wrth i'r prosiectau peilot ddatblygu, ond a oedd yn arafu'r proses.

11. Roedd y prosiectau peilot wedi meithrin ymgysylltiad a chefnogaeth gref gan y rheiny a oedd yn ymwneud â'r broses, ac yn effeithiol wrth ymgysylltu â rhannau o'r sector gwirfoddol. Fodd bynnag, cyfyng oedd llwyddiant y prosiectau peilot wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid o sectorau allweddol eraill nad oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiectau, megis gwasanaethau gwella ysgolion o fewn awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

12. Mewn nifer o ffyrdd, yr IDP oedd elfen fwyaf cymhleth y tri model a ddatblygwyd. Bwriedir i'r IDP ddisodli datganiadau anghenion addysgol arbennig, sef un o rannau mwyaf dadleuol y system gyfredol, ac felly mae'n ganolog i'r diwygiadau arfaethedig. Ar ben hyn, yn wahanol i lawer o elfennau eraill y diwygiadau,

byddai angen deddfwriaeth sylfaenol er mwyn cyflwyno IDP. O ganlyniad, rhaid gwneud penderfyniadau am yr IDP cyn y gellir cyflwyno deddfwriaeth ac mae'r amserlen ddeddfwriaethol arfaethedig wedi creu pwysau ychwanegol.

13. Daeth yr IDP i ddominyddu, a gellir dadlau, i anghydbwyso'r prosiectau peilot, gan dynnu'n gynyddol ar amser ac egni tîm diwygio Llywodraeth Cymru, a hynny'n amharu ar ddatblygiad modelau eraill y diwygiadau arfaethedig, megis gwasanaethau cefnogi partneriaethau rhieni.

**Rheoli a gweithredu prosiectau'r Peilot Anghenion Dysgu Ychwanegol gan awdurdodau lleol**

14. Yn gyffredinol, cafodd y prosiectau peilot eu rheoli'n dda ac roedd strwythur rheoli'r prosiectau peilot, a oedd yn cynnwys swyddogion arweiniol y prosiectau a rheolwyr prosiect a grwpiau llywio neu gyfeirio, yn effeithiol. Fel yr amlinellir isod, roedd pob prosiect peilot yn diwallu eu telerau ac amodau i raddau helaeth.

15. Roedd **Peilot A**, a arweiniwyd gan Gaerffili a Sir y Fflint, wedi'i gontractio i ddatblygu model ar gyfer sicrhau ansawdd y ddarpariaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Roedd y gwaith yn cynnwys tair elfen graidd, sef:

- mesurau canlyniadau, er mwyn ei gwneud yn bosibl i ysgolion fesur ystod o ganlyniadau 'caled' a 'meddal', megis newidiadau yng nghyrhaeddiad ac agweddau pobl ifanc, eu rhieni a'u gofalwyr, a phobl broffesiynol eraill sy'n gweithio gyda hwy;
- mapio darpariaeth, er mwyn cysylltu data ar fewnbynnau, megis gwariant a'r mathau o ymyriadau sy'n cael eu cyflwyno i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, gyda data ar ganlyniadau i'r plant a'r bobl ifanc hynny;
- blwch offer hunanwerthuso i alluogi ysgolion i werthuso eu gallu i ddiwallu anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

16. Gwnaed cynnydd da ar bob un o'r tair elfen, a chafodd bob un ei pheilota'n eang. Erbyn diwedd y cyfnod datblygu, fodd bynnag, roedd angen gwaith pellach er mwyn mireinio'r systemau TG er mwyn cefnogi'r map darpariaeth. Yn ogystal,

roedd peth amheuaeth ymysg y prosiectau peilot nad oeddent wedi peilota'r offer (prosiectau peilot B, C a D), am rai elfennau o'r system sicrhau ansawdd, megis y mesurau canlyniad.

17. Roedd **Peilot B**, a arweiniwyd gan Sir Gaerfyrddin a Thorfaen, wedi'i gontractio i ddatblygu a pheilota fframwaith ar gyfer nodi, asesu, cynllunio ac adolygu'r ddarpariaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol dwys neu gymhleth. Roedd hyn yn cynnwys:

- cynllun datblygu unigol (IDP);
- strwythurau a phrosesau i alluogi cydweithio aml-asiantaeth;
- strwythurau a phrosesau i alluogi penderfyniadau aml-asiantaeth am ariannu, gan gynnwys datblygu rôl Paneli Anghenion Cymhleth, sy'n gwneud penderfyniadau ariannu;
- gwasanaethau gwybodaeth a chefnogaeth i deuluoedd a mecanweithiau datrys anghydfod.

18. Gwnaed cynnydd da wrth ddatblygu'r IDP, a elwir yn *Planning Together*. Treuliwyd cymaint o amser yn datblygu'r IDP fel nad oedd modd gwneud rhyw lawer o waith peilota. Serch hyn, cafwyd adborth cadarnhaol am yr IDP gan bobl broffesiynol, rhieni, gofalwyr, plant a phobl ifanc. Cafodd y model ei dderbyn gan grŵp cynghori aml-asiantaeth fel y model arfaethedig, ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol[1], i'w beilota ar ôl i gyfnod datblygu'r prosiectau peilot gael ei gwblhau.

19. Fodd bynnag, gwnaed llai o gynnydd wrth ddatblygu'r systemau, y prosesau a'r strwythurau cyfredol fyddai'n galluogi gwahanol asiantaethau i gydweithio neu wasanaethau gwybodaeth a chefnogaeth i deuluoedd gael eu datblygu neu i fecanweithiau datrys anghydfod i gael eu rhoi ar waith. Yn ogystal, mae'r gwaith datblygu hyd yma wedi canolbwyntio ar blant a phobl ifanc rhwng 5-16 oed, a

[1] I ddechrau, datblygwyd IDP ar wahân gan brosiect peilot B a phrosiect peilot C. Datblygodd peilot B IDP i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol dwys neu gymhleth a datblygodd peilot C IDP i blant a phobl ifanc nad oedd eu hanghenion dysgu ychwanegol yn ddwys nac yn gymhleth.

phrin oedd y cysylltiadau â'r rhaglen Cefnogi Cynnar, i blant rhwng 0-4 oed, ac i ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 17-25 oed.

20. Cafodd **Peilot C**, a arweiniwyd gan Ben-y-bont, Sir Benfro a Thorfaen[2], ei gontractio i ddatblygu a pheilota fframwaith nodi, asesu, cynllunio ac adolygu i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol nad ydynt yn rhy ddwys na chymhleth. Roedd hyn yn cynnwys datblygu IDP – sef rhan hanfodol o'r broses gynllunio. Cawsant eu contractio hefyd i ddatblygu gwasanaethau cefnogi a gwybodaeth i deuluoedd, mecanweithiau datrys anghydfod ac i ddatblygu a pheilota system ar gyfer hwyluso'r gwaith o wella darpariaeth ysgolion o ran anghenion dysgu ychwanegol.

21. Gwnaed cynnydd da wrth ddatblygu'r broses gynllunio unigol a oedd yn trafod yr holl agweddau ar anghenion plentyn neu berson ifanc. Er nad oedd ond yn bosibl cynnal rhyw lawer o waith peilota ar yr IDP, a elwir yn gynllun John/Jenny, cafwyd adborth cadarnhaol ar yr IDP a ddatblygwyd gan bobl broffesiynol, rhieni, gofalwyr a phlant a phobl ifanc. Serch hyn, ar ddiwedd y cyfnod datblygu, cytunodd y grŵp cynghori aml-asiantaeth i ddatblygu un IDP yn seiliedig ar Planning Together (sef IDP prosiect peilot B), ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Er gwaethaf y gwahaniaethau yn y modelau a gafodd eu peilota gan brosiectau peilot B a C, cafwyd consensws cryf ar draws y prosiectau peilot o ran cynnwys ac ymagwedd yr IDP, ac roedd *Planning Together* a *chynllun John/Jenny*, wedi datblygu ac yn rhannu dull cynllunio a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Defnyddiwyd y gwaith a wnaed gan brosiect peilot C i lywio'r gwaith o ddatblygu mwy fyth ar *Planning Together*.

22. Gwnaed cynnydd da hefyd ar elfennau allweddol eraill, gan gynnwys datblygu gwasanaethau gwybodaeth a chefnogaeth i deuluoedd, fframwaith nodi, asesu,

---

[2] Roedd Torfaen yn rhan o brosiectau peilot B a C. Fodd bynnag, yn ymarferol, bu'n gweithio'n agosach gyda Sir Gaerfyrddin ar brosiect peilot B. O ganlyniad, rydym yn trafod cyfraniad Torfaen mewn perthynas â phrosiect peilot B. Mae hefyd yn bwysig bod y gwahanaieth rhwng prosiectau peilot B a C yn llai amlwg ar ôl i'r penderfyniad cael ei wneud i ddatblygu un IDP ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, yn hytrach na dau IDP ar wahân – un ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol dwys neu gymhleth ac un arall ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol nad ydynt yn ddwys nac yn gymhleth.

cynllunio ac adolygu, a chynigion ar gyfer gwella darpariaeth ysgolion o ran anghenion dysgu ychwanegol.

23. Cafodd **Peilot D,** a arweiniwyd gan Gaerdydd a Chasnewydd, ei gontractio i ddatblygu a diffinio rôl y Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALNCo) ac i ddatblygu a pheilot cwrs achrededig ar gyfer ALNCo.

24. Gwnaed cynnydd da wrth ddatblygu a diffinio rôl yr ALNCo. Lluniwyd manyleb y rôl yn amlinellu ‘egwyddorion’ – sef yr hyn y mae angen i ALNCo ei wybod – a ‘themâu’ – sef yr hyn y mae angen i ALNCo ei wneud (peilot D, dogfen heb ei chyhoeddi). Datblygwyd hefyd gymhwyster proffesiynol a fyddai’n rhoi i’r ALNCo yr wybodaeth a’r sgiliau a fynnir gan yr egwyddorion a’r themâu ym manyleb y rôl. Cafwyd adborth cadarnhaol gan randdeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr o ysgolion arbennig, yr awdurdodau lleol a’r sector gwirfoddol, am fanyleb y rôl a’r cymhwyster. Fodd bynnag, cytunwyd gyda Llywodraeth Cymru na fyddai’n bosibl peilota’r cwrs achrededig a fyddai ei angen ar gyfer y cymhwyster proffesiynol tan fod penderfyniadau yn cael eu gwneud am rôl yr ALNCo a hyfforddiant, a than i broses gomisiynu gael ei chynnal.

**Rôl ymchwil weithredu wrth ddatblygu’r peilot**

25. Roedd effeithiolrwydd ac effaith yr Uned Pobl a Gwaith fel cyfaill beirniadol i bob un o’r prosiectau peilot yn amrywio, a dim ond o dro i dro yr oedd y rhan fwyaf o’r prosiectau peilot yn ceisio’r gefnogaeth hon. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, roedd rôl yr Uned Pobl a Gwaith fel cyfaill beirniadol i’r prosiect yn ei gyfanrwydd yn fwy effeithiol.

**Canlyniadau ac effaith prosiectau'r Peilot Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ystod y cyfnod datblygu**

26. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac effaith cyfnod datblygu'r prosiectau peilot ar y broses ddiwygio statudol arfaethedig. Nodwyd pedair ffordd y gallai'r prosiectau peilot gyfrannu at y broses hon:

- peilota elfennau allweddol y broses ddiwygio er mwyn ei gwneud yn bosibl i werthuso pa mor gost-effeithlon oeddent;
- creu gweledigaeth gadarnhaol, eglur a chynhwysfawr ar gyfer y broses ddiwygio, yn amlinellu sut y byddai'r system gyfredol yn cael ei diwygio ac effaith ddisgwyliedig y broses ddiwygio;
- hysbysu cynigion ar gyfer proses ddiwygio ar draws y system;
- ymgysylltu â'r broses ddiwygio statudol, a meithrin dealltwriaeth ohoni ymysg grwpiau allweddol o randdeiliaid.

27. Erbyn diwedd cyfnod datblygu'r prosiectau peilot:

- roedd tri model – y system sicrhau ansawdd, y broses gynllunio unigol a oedd yn canolbwyntio ar yr IDP, a rôl yr ALNCo – wedi'u datblygu ac wedi cael eu peilota rhywfaint. Roedd hyn wedi helpu i lywio dadansoddiad o gostau disgwyliedig y broses ddiwygio. Fodd bynnag, gan na chynhaliwyd rhyw lawer o waith peilota, prin oedd y dystiolaeth ar yr effaith debygol na chost-effeithiolrwydd y modelau;
- daeth y modelau peilot a ddatblygwyd yn elfennau allweddol o'r diwygiadau arfaethedig o'r fframwaith statudol i blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig. Roedd gwaith datblygu'r prosiectau peilot hefyd wedi cynnig darlun cliriach o'r effaith y byddai disgwyl i'r rhain ac elfennau eraill y rhaglen ddiwygio, megis gwasanaethau cefnogaeth a gwybodaeth i deuluoedd, yn ei chael. Serch hyn, roedd y weledigaeth ar gyfer y diwygiadau o ran plant a phobl ifanc 5-16 oed yn gliriach o lawer na'r weledigaeth ar gyfer plant 0-4 oed a phobl ifanc 17-25. Yn ogystal, roedd elfennau pwysig o'r weledigaeth, a oedd yn trawsdorri'r rhychwant oedran o 0-25, heb eu datrys yn ystod y cyfnod datblygu. Roedd hyn yn cynnwys i ba raddau y dylai'r diogelwch cyfreithiol a berthynai i ddatganiadau gael ei estyn

i blant a phobl ifanc oedd ag anghenion dysgu ychwanegol nad oedd yn ddwys nac yn gymhleth; y diffiniad o anghenion dysgu ychwanegol; a chymhwyster (*eligibility*) plant a phobl ifanc ar gyfer IDP;

- i raddau helaeth, mae'r prosiectau peilot wedi dilysu'r dadansoddiad cychwynnol o'r achos dros newid, a nododd wendidau systematig yn y system gyfredol. Er bod cyfraniad y modelau wedi lleihau rhywfaint am na chafwyd y cyfle i'w peilota ddigon, maent serch hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at y dadansoddiad o oblygiadau'r broses ddiwygio ar draws y system. Mae hyn wedi llywio'r diwygiadau arfaethedig o'r fframwaith statudol i blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig yng Nghymru;
- llwyddodd y prosiectau peilot i ymgysylltu'n llawn â'r rheiny a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith datblygu a pheilota. Serch hyn, nid oeddent yn fodd effeithiol, na phriodol o bosibl, o ymgysylltu â grwpiau eraill, megis y rheiny sy'n gweithio ar wella ysgolion, iechyd a gofal cymdeithasol.

28. Bydd canlyniadau disgwyliedig ac effaith y modelau peilot ar blant a phobl ifanc, ar eu rhieni a'u gofalwyr ac ar y wladwriaeth, yn cael eu gwerthuso ar ôl i'r cyfnod peilota ddod i ben.

**Casgliadau**

29. Atgyfnerthodd y prosiectau peilot yr achos dros broses ddiwygio esblygiadol yn hytrach na phroses chwyldroadol. Roedd y prosiectau peilot yn gyson â'r egwyddorion a ymgorfforir yn y Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (CC, 2004b) ac yn adeiladu ar arferion da cyfredol, gan ddefnyddio'r modelau a ddatblygwyd i alluogi a chefnogi newid. Yn hanfodol, mae'r dystiolaeth a gafwyd o'r prosiectau peilot a'r adolygiad cwmpasu yn nodi tra bod agweddau ar y system gyfredol yn aneffeithlon a/neu'n aneffeithiol, nid oedd llawer o'r gwendidau yn annatod yn y modelau a'r strwythur cyfredol eu hunain, ond yn ymwneud yn hytrach â dulliau gwael o'u rhoi ar waith a diffyg capasiti.

30. Roedd defnyddio'r prosiectau peilot yn ffordd lwyddiannus o fynd ati i ddatblygu modelau, ond roedd yn mynnu cydgysylltiad cadarn o'r canol. Cafwyd anawsterau wrth beilota'r modelau'n llawn o fewn y cyfnod datblygu.

31. Gwnaed cynnydd wrth ddatblygu a pheilota modelau i blant a phobl ifanc yn yr ysgol rhwng 5-16 oed. Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith er mwyn datblygu a pheilota modelau i blant 0-4 oed, lle gwnaed rhywfaint o gysylltiadau â'r rhaglen Cefnogi Cynnar, ond megis dechrau y mae'r cyswllt hwn mewn gwirionedd. O ran pobl ifanc rhwng 17-25 oed, cyfyng yw'r cynnydd a wnaed. Mae angen rhagor o waith hefyd er mwyn peilota'r modelau gyda'r rheiny sy'n gweithio mewn sectorau eraill, megis iechyd a gofal cymdeithasol.

32. Nid oes un ateb syml. Bydd proses ddiwygio lwyddiannus yn dibynnu ar ystod o ddiwygiadau rhyng-ddibynnol, ac felly ceir achos cryf dros beilota ledled y system. Fodd bynnag, mae'n debygol o fod yn her i gyflawni hyn o fewn y cyfnod peilota cyfredol, y mae disgwyl iddo ddod i ben ym mis Gorffennaf 2012.

**Argymhellion**

33. Argymhelliad un: mewn perthynas â'r IDP a'r system sicrhau ansawdd, dylid ystyried pennu'r prosesau a'r gofynion ar gyfer proses gynllunio unigol a system sicrhau ansawdd unigol, a chynnig enghreifftiau o arferion da, yn seiliedig ar y sail dystiolaeth gyfredol (gan dynnu, er enghraifft ar astudiaethau a gwerthusiadau eraill) a thystiolaeth o'r modelau a ddatblygwyd gan y prosiectau peilot, a hynny heb orfod defnyddio offeryn penodol neu feddalwedd benodol. Dull o weithredu tebyg i'r 'model mabwysiadu neu gyfiawnhau' felly. I'r gwrthwyneb, rydym yn argymell y dylid ystyried gwneud hyfforddiant ALNCo yn orfodol a dylid ei drefnu ar sail genedlaethol.

34. Argymhelliad dau: dylid ystyried gofyn i awdurdodau lleol i gynllunio sut y maent yn bwriadu adeiladu ar eu harferion da cyfredol wrth roi'r diwygiadau arfaethedig ar waith.

35. Argymhelliad tri: fel rhan o'r cyfnod peilot, dylid edrych ar y modelau a ddatblygwyd ar gyfer plant 0-4 oed ac i bobl ifanc 17-25 oed a gweld a oes modd eu cymhwyso.

36. Argymhelliad pedwar: dylid ystyried ymgorffori rhaglen o ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol o Lywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol, y Byrddau Iechyd Lleol a'r Ymddiriedaethau Iechyd Lleol i'r cyfnod peilot.

37. Argymhelliad pump: yn ystod y cyfnod peilota, dylid rhoi ystyriaeth ddyledus i'r gwaith o nodi a mapio'r newidiadau cyd-destunol sydd eu hangen er mwyn ei gwneud yn bosibl i'r modelau peilot weithredu hyd eithaf eu gallu. Dylai'r gwerthusiad felly edrych ar y prosesau a'r canlyniadau, fel ei gilydd.

38. Argymhelliad chwech: dylid ystyried comisiynu gwaith ymchwil pellach er mwyn dod i ddeall yn well pa mor gost-effeithiol yw'r paneli aml-asiantaeth, graddau'r anghenion o ran hyfforddi a sut y gellir diwallu'r anghenion hyn yn y ffordd orau, a'r gofynion o ran gweithio allweddol a gweithwyr allweddol dynodedig.

**Llyfryddiaeth**

Comisiwn Archwilio, (2002), '*Special Educational Needs: A Mainstream Issue'*, Comisiwn Archwilio ar gyfer awdurdodau lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a Lloegr, Llundain. Ar gael drwy: http://www.audit-commission.gov.uk/nationalstudies/localgov/Pages/senmainstreamissue.aspx

Cambridge Education Associates, (n.d.), *'Management of SEN in Wales'.* adroddiad heb ei gyhoeddi a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)

Estyn, (2003), '*Support for Children with Special Educational Needs: An Estyn Overview',* Estyn, Caerdydd. Ar gael drwy*:* http://www.estyn.co.uk/publications/Support_children_SEN.pdf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, (2004a), '*Education and Lifelong Learning Committee, Policy Review of Special Educational Needs Part 1: Early Identification and Intervention'*, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd. Ar gael drwy: http://www.assemblywales.org/N0000000000000000000000000026476.pdf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, (2004b)*, 'Special Educational Needs Code of Practice for Wales',* Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd*.* Ar gael drwy: http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/specialeduneedscop/?lang=en

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, (2006), '*Education and Lifelong Learning and Skills Committee, Policy Review of Special Educational Needs: Part 2: Statutory Assessment Framework (Statementing), May 2006',* Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd. Ar gael drwy: http://www.assemblywales.org/N0000000000000000000000000044329.pdf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, (2007), *'Education, Lifelong Learning and Skills Committee, Policy Review of Additional Educational Needs: Part 3: Transition*, *March*

*2007'.* Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd. Ar gael drwy: http://www.assemblywales.org/a418a2221ff4ec27fb94740522d38822.pdf

Peilot D, (dogfen heb ei chyhoeddi), *'The Role of the ALNCo - Pilot D',* cyflwyniad heb ei gyhoeddi, wedi'i baratoi gan Beilot D (Cyngor Dinas Caerdydd a Chasnewydd).